

# Canllaw iaith Gwerddon

---

Dyma ganllaw sy'n cynnwys cyngor cyffredinol ynghylch ysgrifennu'n academiaidd a gwybodaeth am yr arddull a ffefrir gan dîm golygyddol *Gwerddon*.

## 1. Cyffredinol

Er mwyn medru rhoi sylw llawn i'ch mynegiant wrth ysgrifennu, mae angen i chi gynllunio yn union sut yr ydych am strwythuro'r erthygl. Yna, gallwch ystyried y pwyntiau canlynol.

### Arddull

Dylech ystyried eich brawddegau'n ofalus:

- sicrhewch eich bod yn dewis y gair cywir i gyfleu'r ystyr cywir
- sicrhewch fod y brawddegau'n ddealladwy i'r darlennydd
- ysgrifennwch mor syml ac uniongyrchol â phosibl. Os yw un gair yn ddigonol i gyfleu'r ystyr, peidiwch â defnyddio rhagor.
- Darllenwch eich gwaith yn uchel er mwyn gweld a yw'r testun yn llifo.

Ystyriwch ddefnyddio'r [Banc Brawddegau](#), adnodd sy'n cynnig enghreifftiau o frawddegau y gallwch eu defnyddio wrth ysgrifennu'n academiaidd.

### Geirfa a jargon

Ystyriwch eich geirfa'n ofalus. Gan eich bod yn gyfarwydd tu hwnt â'ch pwnc, mae'n hawdd syrthio i'r trap o gymryd gwybodaeth y darlennydd yn ganiataol.

Dylech osgoi defnyddio jargon. Yn aml, mae termau/ymadroddion arbenigol yn tarddu o'r Saesneg, ond mae angen bod yn ofalus cyn eu cyfieithu'n llythrennol i'r Gymraeg. Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd eu cyfieithu'n llythrennol i'r Gymraeg yn cyfleu'r ystyr i'r darlennydd. Hwyrach y byddant yn gwneud synnwyr i chi, ond ddim i neb arall.

Peidiwch â dilyn cystrawennau Saesneg wrth ysgrifennu yn y Gymraeg. Os ydych yn cael trafferth dod o hyd i ymadrodd Cymraeg er mwyn mynegi cysyniad sydd fel arfer yn cael ei fynegi yn y Saesneg, peidiwch â'i gyfieithu air am air. Y peth gorau i'w wneud yw meddwl sut y byddech yn ei fynegi yn y Gymraeg ar lafar. Fel arfer, mae'r ffordd lafar honno yn eich arwain at sut i'w fynegi mewn Cymraeg safonol.

## 2. Termau

Dylid osgoi defnyddio term sy'n rhy dechnegol os oes gair cyffredin ar gael. Os ydych am ddefnyddio term, eglurwch ef cyn ei ddefnyddio.

Defnyddiwch y termau safonol sydd i'w cael yn y [Geiriadur Termau Addysg Uwch](#).

Mewn achosion lle y gallai'r term Cymraeg fod yn anghyfarwydd i'r darllenydd, gellir rhoi'r term Saesneg wedi'i italeiddio mewn cromfachau i ddilyn, e.e. 'Mae nifer o ffilamentau yn ymddangos fel crymion (*sigmoids*).'

Os ydych yn ansicr o'r termau yn eich maes, cysylltwch â Dr Tegau Andrews, Swyddog Prosiectau Terminoleg ([t.andrews@bangor.ac.uk](mailto:t.andrews@bangor.ac.uk)).

## 3. Arddull Gwerddon

### Rhifau

Yn gyffredinol, defnyddiwch eiriau ar gyfer rhifau rhwng un a naw, a rhifolion ar gyfer rhifau uwch na naw ('Roedd ganddi **bedwar** brawd', 'Cafwyd **19** sampl').

Defnyddiwch rifolion ar gyfer rhifau uchel penodol (**30,162,913**), a rhifolyn a gair ar gyfer rhifau uchel wedi'u talgrynu (**dros 30 miliwn o bobl**).

Wrth nodi ystod rhifau, dylid dilyn y patrwm canlynol: **tt. 20–7**, nid tt. 20–27.

### Dyddiadau

Dylid nodi dyddiadau yn y modd canlynol:

**16 Medi 1400**  
**2 Ionawr 2019**

Ni ddylid defnyddio trefnolion, h.y. 1<sup>af</sup> o Ionawr 11<sup>eg</sup> Awst.

Noder 'y bedwaredd ganrif ar bymtheg' yn llawn, ond 1800au ac 1930au, nid 'tridegau' neu '30au'.

### Cyplysnodau

Dylid defnyddio'r en-dash (cyplysnod hir) i wahanu cymalau sangiadol mewn brawddegau, e.e. 'Cyrhaeddodd y dref – drwy deithio ar y bws – am 11 o'r gloch'.

Defnyddir en-dash wrth nodi rhifau tudalennau yn y testun ac yn y llyfryddiaeth, **tt. 4–7**.

## Talfyrru a chywasgu

Nid oes angen atalnod llawn ar gyfer y mwyafrif o acronymau a thalfyriadau – UDA, y DU, MA, MSc, AS, AC, DS, PhD. Wrth ddefnyddio talfyriad am y tro cyntaf, dylid ychwanegu'r geiriad llawn mewn cromfachau ar ei ôl, e.e. y DU (Y Deyrnas Unedig)

Rhoddir atalnod llawn ar ôl rhai talfyriadau: 'ffig.', 'gol.', 'cyf.', 'ibid.', 'y Parch.', ond nid yn y mwyafrif o gywasgiadau: 'Mr', 'goln', 'Dr'.

## Priflythrennau

Mae angen cysondeb wrth ddefnyddio priflythrennau. Ceir tuedd i'w defnyddio pan nad oes angen.

'Yr Eglwys' (sefydliad) ond 'yr eglwys' (adeilad); 'y Llywodraeth' (penodol) ond y 'llywodraeth (cyffredinol)'; 'arlywydd yr Unol Daleithiau' ond 'Arlywydd Trump'.

Ni ddefnyddir priflythyren yn achos **gogledd Cymru, de Cymru, dwyrain Cymru a gorllewin Cymru**. Defnyddir priflythyren yn unig pan fo ardal yn endid gwleidyddol, yn wlad, neu'n gyfandir, e.e. Gogledd Corea, De America.

Defnyddier llythyren fach ar gyfer 'de Cymru' gan nad oes rhanbarth gwleidyddol, ond Gorllewin Abertawe ar gyfer yr etholaeth seneddol.

## Cyffredinol

- Nid oes angen cynnwys 'fe' o flaen berfau, e.e. 'fe welir', 'fe ellir': **gwelir, gellir**
- Nid oes angen cynnwys 'y' o flaen 'mae' ('y mae'): **mae**
- Ni ddylid arfer 'yma' mewn testun academaidd, e.e. 'y llyfr yma', 'y ddeialog yma': **y llyfr hwn, y ddeialog hon**
- Er cysondeb, mae'n well defnyddio 'yn' yn hytrach nag 'ym' o flaen blynyddoedd, e.e. 'yn 1985' (yn un naw wyth pump). Gan nad oes modd defnyddio 'ym' o flaen blynyddoedd ar ôl troad y mileniwm, e.e. 'yn 2002' (yn nwy fil a dwy), mae'n well defnyddio 'yn' drwyddi draw.
- Ni ddylid ysgrifennu'n dafodieithol, e.e. 'mae e'n/mae o'n': **mae'n**
- Nid oes angen defnyddio rhagenwau safonol, e.e. Mae hi'n ffasiynol bellach: **Mae'n ffasiynol bellach**
- Dylid defnyddio'r ferf gryno, e.e.
  - 'Yn y gorffennol, **rhoddwyd llawer o sylw i gestyll Cymru**', *nid* 'Yn y gorffennol, mae llawer o sylw wedi cael ei roi i gesCymruCymru'
  - '**Dylanwadodd Beethoven ar ddatblygiad y symffoni**', *sy'n well na* 'Mae Beethoven wedi dylanwadu ar ddatblygiad y symffoni'.



#### 4. Ar ôl gorffen ysgrifennu

- Rhowch y gwaith i'r naill ochr am gyfnod byr (o leiaf tri diwrnod). Wrth gymryd seibiant oddi y gwaith, gallwch ddod nôl ato'n 'ffresh'.
- Ystyriwch yr eirfa; ai'r gair a ddefnyddiwyd gennych yw'r gair mwyaf addas, neu a oes gair gwell i gyfleu'r ystyr?
- Byddwch yn siŵr o weld camgymeriadau na welsoch o'r blaen, ac yn gweld nad yw rhai brawddegau'n cyfleu'r ystyr cywir! Dyma'r amser i fynd ati i addasu nes bod yr ystyr yn hollol glir i'r darlennydd.

Cyn cyflwyno'ch erthygl, defnyddiwch [Cysgliad](#) i wirio'r iaith.

#### 5. Cefnogaeth ar gyfer gloywi a gwirio iaith

Mae sefydliadau addysg uwch Cymru yn cynnig gwahanol fathau o gymorth i loywi a gwirio iaith (e.e. cyrsiau, sesiynau tiwtora, adnoddau). Anogir darpar awduron i fanteisio ar y gefnogaeth hon.

Gall deiliaid Ysgoloriaeth Ymchwil a staff mewn adrannau sy'n derbyn grantiau pynciol dderbyn [cefnogaeth iaith](#) gan diwtoriaid iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Dylai darpar awduron gysylltu â'r [swyddog cangen](#) a/neu'r tiwtor perthnasol er mwyn cael gwybod am y ddarpariaeth gloywi a gwirio iaith sydd ar gael iddynt.

#### 6. Adnoddau defnyddiol

Rhestr o lyfrau defnyddiol:

- J. Elwyn Hughes (2011), *Canllawiau iaith a Chymorth Sillafu* (Llandysul: Gomer).
- Rhiannon Ifans (2006), *Y Golygiadur: Llawlyfr i awduron a golygyddion* (Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion).
- Gwyn Thomas (2012), *Ymarfer Ysgrifennu Cymraeg* (Caerdydd: CBAC a Thal-y-bont: Y Lolfa).
- D. Geraint Lewis (2003), *Y Llyfr Berfau*, 4ydd argraffiad (Llandysul: Gomer).
- D. Geraint Lewis (2018), *Pa Arddodiad?*, argraffiad newydd (Llandysul: Gomer).
- D. Geraint Lewis (2014), *Y Treigludur: A Check-list of Welsh mutations* (Llandysul: Gomer).
- Peter Wynn Thomas (2012), *Gramadeg y Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- D. Elwyn Davies (1957), *Rhestr o Enwau Lleoedd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).



Am gymorth gyda sillafu, gweler:

- [Gweiadur.com](http://Gweiadur.com) (defnyddiol hefyd ar gyfer ymadroddion a rhedeg berfau)
- [Geiriadur.net](http://Geiriadur.net)
- [Geiriadur Prifysgol Cymru](http://Geiriadur.Prifysgol.Cymru)
- [Geiriadur yr Academi](http://Geiriadur.yr.Academi)

Am gymorth gydag arddull, gweler:

- [Y Banc Brawddegau](http://Y.Banc.Brawddegau)
- [Canllaw arddull Llywodraeth Cymru](http://Canllaw.arddull.Llywodraeth.Cymru)

Am wersi gloywi iaith ar-lein, gweler:

- [Tystysgrif Sgiliau Iaith: adnoddau cefnogol](http://Tystysgrif.Sgiliau.Iaith.adnoddau.cefnogol)
- [Cymarfer: Cwrs Gloywi Iaith Ar-lein](http://Cymarfer:Cwrs.Gloywi.Iaith.Ar-lein)